JAMES, JAMES (1760 - 1831), gweinidog Methodistaidd ac Annibynnol

Enw: James James
Dyddiad geni: 1760
Dyddiad marw: 1831
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Methodistaidd ac Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 24 Tachwedd 1760 o rieni cefnog ym Mhen-blaen, Aberedw, sir Faesyfed. Ymunodd â'r Methodistiaid yn ieuanc yn erbyn ewyllys ei rieni, a dechreuodd bregethu yn 1782. Addysgwyd ef yn Nhrefeca, a gwnaeth ei drigias yno am saith mlynedd ar ôl ei ordeinio. Yr oedd yn un o'r rhai a neilltuwyd yn ordeiniad cyntaf y Methodistiaid yn Llandeilo Fawr, 1811. Yr oedd yn bregethwr nerthol yn y ddwy iaith, a gwasnaethai'n aml yng nghapel Philip Oliver, Caer. Yn ei flynyddoedd canol aethai'n rhy dew i deithio, a derbyniodd alwad i fugeilio eglwys Annibynnol Heol y Castell, Abergafenni, yn 1818. Bu farw 10 Ebrill 1831.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Methodistiaeth Cymru (1851–6), iii, 322

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, i, 52

Joseph Evans, *Biographical Dictionary of Ministers and Preachers of the Welsh Calvinistic Methodist Body ... to the close of the year 1850* (1907), 138

J.M. Jones, *Ordeiniad 1811 ymysg y Methodistiaid Calfinaidd* (1911) 144

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733321

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu